INSHOU12

Trefnu cyfarfodydd gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid allanol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â threfnu cyfarfodydd gyda chwsmeriaid a/neu randdeiliaid allanol naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Mae'n ymwneud â chytuno ar ddiben cyfarfodydd, eu cynnal mewn modd sy'n dderbyniol i gwsmeriaid, a chofnodi camau gweithredu a chanlyniadau y cytunwyd arnynt.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cytuno ar nodau'r cyfarfod gyda chwsmeriaid a/neu randdeiliaid allanol a pharatoi agenda
2. cael y wybodaeth berthnasol i drefnu'r cyfarfod
3. nodi a chadarnhau amser, dyddiad a lle ar gyfer y cyfarfod gyda'r cwsmeriaid perthnasol a/neu randdeiliaid allanol
4. rhoi'r wybodaeth a'r dogfennau perthnasol i gyfranogwyr ar gyfer y cyfarfod yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol
5. cadarnhau bod gennych yr holl wybodaeth ofynnol sydd ar gael i gyflawni nodau'r cyfarfod
6. esbonio nodau'r cyfarfod gyda'r rhai sydd yn y cyfarfod
7. helpu'r rhai sydd yn y cyfarfod i ofyn cwestiynau a gofyn am eglurhad pellach lle bo angen
8. cwblhau'r cyfarfod o fewn yr amserlen a nodwyd ar gyfer y cyfarfod
9. cynnal y cyfarfod yn unol â gofynion deddfwriaethol sefydliadol a pherthnasol
10. sicrhau bod canlyniadau'r cyfarfod yn cael eu cofnodi yn unol â gofynion deddfwriaethol sefydliadol a pherthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gwahanol fathau o gyfarfodydd, fformatau a gweithdrefnau ar gyfer eich sefydliad
2. nodau'r cyfarfod a sut y dylid cytuno ar y rhain yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol
3. sut i drefnu cyfarfodydd a gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol
4. y wybodaeth sydd ei hangen i drefnu'r cyfarfodydd
5. yr wybodaeth sy'n ofynnol gan y rhai sy'n mynd i'r cyfarfod
6. y mathau o ofynion ar gyfer y rhai sy'n mynd i'r cyfarfod ynghylch mynediad a chyfleusterau yn y lleoliadau sydd ar gael a chymorth yn y cyfarfod a'i amseriad
7. y gofynion sefydliadol a deddfwriaethol perthnasol
8. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
9. sut i gynnal cyfrinachedd yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol
10. y mathau o rwystrau i gyfathrebu a sut gellir lleihau'r rhain
11. y cofnodion y mae'n rhaid eu cynhyrchu a'u cadw o'r cyfarfod yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol

INSHOU12

Trefnu cyfarfodydd gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid allanol

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH223
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	cwsmeriaid; cydweithwyr; risg; diogelwch; diogeledd; cymorth; agored i niwed; gwasanaethau; cytundebau; deddfwriaeth; dogfennaeth; ymholiadau; llety; trefnu; eiddo; dehongli